

No.

PWYLLGOR CRAFFU BYW'N IACH A GOFAL CYMDEITHASOL

Cofnodion cyfarfod anghysbell a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd, 2022.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#).

Mae recordiad y cyfarfod ar gael [yma](#).

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.E. Charles (Cadeirydd); Cynghorydd N. Thomas (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr G.M. Ball, C.A. Cave, M. Cowpe, R. Fisher, S. Lloyd-Selby, J.M. Norman, a C. Stallard.

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr H.C. Hamilton, G. John (Aelod Cabinet dros Hamdden, Chwaraeon a Lles) a Dr. I.J. Johnson.

419 CYHOEDDIAD -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngwrdd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

420 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr A.M. Collins, J. Lynch-Wilson a H.M. Payne.

421 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 4 Hydref, 2022 fel cofnod cywir.

422 DATGANIADAU BUDDIANT –

Datganodd y Cynghorydd S. Lloyd-Selby fuddiant yn Eitem Agenda Rhif 8 - Diweddariad ar Wasanaethau Teleofal gan fod sawl aelod o'i theulu'n derbyn cymorth Teleofal ac un aelod o'i theulu'n derbyn pecyn gofal. Dywedodd y Cynghorydd Lloyd-Selby ei bod wedi cael goddefeb gan y Pwyllgor Safonau i siarad ar faterion Pecynnau Gofal a Teleofal yn unig mewn cyfarfodydd Bro Morgannwg. Arhosodd y Cynghorydd yn y cyfarfod ond ni wnaeth gymryd rhan yn y bleidlais.

423 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYDWEITHREDOL MABWYSIADU RHANBARTHOL Y FRO, Y CYMOEDD A CHAERDYDD 2021-22 (CGC) -

Cyflwynodd y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol yr adroddiad a'i ddiben oedd darparu'r Adroddiad Blynyddol atodol ac adolygiad o'r Gydweithrediaeth i'r Pwyllgor. Roedd Cydweithrediaeth Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd yn un o bum Cydweithrediaeth ranbarthol a oedd yn rhan o'r Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol ac yn darparu gwasanaeth mabwysiadu ar ran Cyngor Bro Morgannwg, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Chyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. Cyngor Bro Morgannwg oedd yn cynnal y Gydweithrediaeth.

Roedd yr adroddiad yn ymdrin â'r cyfnod o 1 Ebrill 2021 i 30 Medi 2022 ac roedd wedi'i ymestyn i gwmpasu chwe mis cyntaf y flwyddyn adrodd gyfredol i fodloni'r gofyniad i adolygu'r gwasanaeth o dan Reoliad 39 o Reoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Awdurdodau Lleol (Cymru) 2019. Roedd hefyd yn ymgorffori'r gofynion adrodd a nodir yn y cytundeb cyfreithiol sy'n sail i'r Gydweithrediaeth.

Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor am y gwaith o lywodraethu a chraffu ar y trefniadau rhanbarthol ar lefel leol, newidiadau staff a meysydd datblygu gwasanaeth. Roedd yr adroddiad hefyd yn darparu gwybodaeth ynglŷn â dangosyddion perfformiad allweddol yn ymwneud â lleoli plant ar gyfer mabwysiadu, recriwtio ac asesu mabwysiadwyr, a darparu gwasanaethau cymorth mabwysiadu.

Amlinellodd y Swyddog y ffordd yr oedd gwasanaethau'n cael eu darparu yn dilyn y cyfyngiadau a osodwyd o ganlyniad i'r pandemig a'r ffyrdd newydd o weithio ac addasiadau a oedd wedi eu cadw yn ystod y cyfnod adfer. Amlygwyd hefyd yr heriau allweddol a'r blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth yn y dyfodol o ran datblygu'r gwasanaeth yng nghyd-destun agenda ar gyfer gwelliant cenedlaethol a oedd â gofynion cynyddol parhaus.

I gloi, tynnodd y Swyddog sylw'r Aelodau at yr Atodiadau yn yr adroddiad a oedd yn darparu data yn ymwneud â mesurau perfformiad allweddol mewn perthynas â phlant, gweithgarwch marchnata, recriwtio mabwysiadwyr, cymorth mabwysiadu a'r Panel Mabwysiadu. Roedd yr wybodaeth hon wedi ei dadansoddi fesul awdurdod lleol.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Mabwysiadu Rhanbarthol a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, cynigiodd y Rheolwr gyngor ychwanegol mewn partneriaeth â Phennaeth Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc fel a ganlyn:

- Derbyniodd Cydweithrediaeth Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd gyfanswm o 369 o ymholiadau mabwysiadu yn ystod 2021-22. Roedd hyn yn ostyngiad o'i gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol (377), ond yn gynydd o'i gymharu â 2019-20 (336). Er nad oedd Cydweithrediaeth Mabwysiadu yn y Fro, y Cymoedd a Chaerdydd na'r gwasanaeth cenedlaethol wedi comisiynu unrhyw ymchwil i ddeall y rhesymau y tu ôl i'r gostyngiad, y farn oedd bod nifer o ffactorau perthnasol,

e.e. gallai'r argyfwng costau byw a'r argyfwng tanwydd olygu bod pobl yn fwy gofalus ynghylch dechrau'r broses ar adeg mor ansicr. Fel rhan o'r gwaith o fonitro ymholiadau, cofnodwyd rhesymau dros beidio â symud ymlaen er mwyn deall yn well y gostyngiad mewn ymholiadau. Roedd y Gydweithrediaeth yn parhau i godi ymwybyddiaeth mewn digwyddiadau lleol hefyd megis Sioe Bro Morgannwg, Pride Caerdydd a'r Eisteddfod ac roedd yn edrych am gyfleoedd newydd ar gyfer gwaith hyrwyddo yn barhaus.

- Yn ystod pandemig y coronafeirws, parhaodd y Gydweithrediaeth i dderbyn lefel uchel o ymholiadau mabwysiadu; er hynny, roedd yr hinsawdd economaidd genedlaethol wedi newid yn sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Er bod tystiolaeth o ostyngiad mewn ymholiadau mabwysiadu, nid oedd y nifer o ddarpar fabwysiadwyr a oedd yn cael eu cymeradwyo wedi gostwng ac, er bod nifer yr ymholiadau mabwysiadu yn bwysig, y flaenoriaeth o hyd oedd ansawdd y darpar fabwysiadwyr.
- Roedd cyfradd y mabwysiadwyr a oedd yn gadael y broses ar y cam ymgeisio yn isel iawn.
Er enghraifft, roedd 369 o ymholiadau wedi'u derbyn ar gyfer y cyfnod adrodd ac roedd hyn wedi arwain at gymeradwyo 64 o fabwysiadwyr. Ar y cam hwn, nifer fach o fabwysiadwyr cymeradwy a oedd wedi gadael.
- O ran Cymorth Mabwysiadu, roedd rhestr aros ar gyfer asesiadau, a oedd wedi arwain at rywfaint o oedi wrth gyflwyno asesiadau ariannol ar gyfer cymorth therapiwtig. Fodd bynnag, gwnaed pob ymdrech i gwblhau'r prosesau penderfynu misol cyn gynted â phosibl i sicrhau bod cymorth yn cael ei ddarparu i deuluoedd a oedd yn mabwysiadu cyn gynted â phosibl.
- Un o amcanion y Gwasanaeth Mabwysiadu Cenedlaethol oedd lleoli plant a oedd yn cael eu mabwysiadu yn eu hardal leol / ardal yr oeddent yn eu hadnabod lle bynnag yr oedd modd. Fodd bynnag, nid oedd hyn bob amser yn bosibl oherwydd ystyriaethau ynghylch grwpiau brodyr a chwiorydd, ethnigrwydd a/neu anghenion cymhleth, gydag ethnigrwydd yn brif ffactor. Felly, byddai hyrwyddo a chyhoeddu'rwydd gwasanaethau mabwysiadu o fewn ardal yr Awdurdod Lleol yn cymryd ethnigrwydd i ystyriaeth wrth recriwtio mabwysiadwyr.
- Roedd lleoliadau a oedd yn cael eu gwneud y tu allan i ardal yr Awdurdod Lleol yn cael eu monitro'n agos iawn ac roedd cynnal y Gofrestr Fabwysiadu Genedlaethol yn un o swyddogaethau statudol y Cyngor, a oedd yn cynnwys adnoddau yn Lloegr.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

(1) Nodi Adroddiad Blynyddol 2021-22 Cydweithfa Fabwysiadu'r Fro, y Cymoedd a Chaerdydd a'r adroddiad eglurhaol cysylltiedig.

(2) Bod y Pwyllgor Craffu'n parhau i dderbyn adroddiadau blynyddol yn unol â gofynion y Cytundeb Cyfreithiol sy'n sail i'r Gydweithfa.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad eglurhaol a'r adroddiad blynyddol atodedig i adolygu gwaith y Gydweithfa hyd yn hyn.

(2) Er mwyn sicrhau bod yr aelodau'n parhau i graffu'n fanwl ar y gwasanaeth rhanbarthol yn rheolaidd.

424 STRATEGAETH GYFALAF DDRAFFT 2023/24 A CHYNIGION RHAGLEN GYFALAF GYCHWYNNOL 2023/24 I 2027/28 (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 6 Hydref 2022 gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifyddiaeth.

Roedd adroddiad y Cabinet yn gofyn am gymeradwyo Cynigion Cychwynnol y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 i 2027/28 fel y gellir eu cyflwyno i Bwyllgorau Craffu ar gyfer ymgynghoriad ac i nodi'r Strategaeth Gyfalaf Ddrafft i Aelodau'r Cabinet ei hystyried.

Dywedodd y Swyddog fod adroddiad y Cabinet yn cynnwys Strategaeth Gyfalaf Ddrafft gyffredinol y Cyngor ar gyfer 2023/24 yn Atodiad 1 yn ogystal â'r Rhaglen Gyfalaf pum mlynedd gyfredol ar gyfer y cyfnod 2023/24 i 2027/28 a'r Ceisiadau Gyfalaf a oedd wedi'u cyflwyno ar gyfer y cyfnod yn Atodiad 2 ac Atodiad 3.

Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn darparu fframwaith a oedd yn amlinellu sut yr oedd gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli'r trysorlys yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol, ynghyd â throsolwg o sut y rheolwyd risgiau cysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol. Dywedodd y Swyddog ei bod yn anodd rhagweld adnoddau cyfalaf dros y cyfnod hirdymor gan fod lefel y cyllid cyfalaf cyffredinol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru fel arfer yn cael ei hysbysu fesul blwyddyn a bod y meysydd gwariant â blaenoriaeth, a oedd yn cael eu dylanwadu gan y grantiau penodol a oedd ar gael, yn mynd i newid dros gyfnod o amser. Gallai ansicrwydd yn yr hinsawdd economaidd bresennol, yn enwedig effaith pandemig COVID-19 ac ymadawiad Prydain o'r Undeb Ewropeaidd, gael effaith ar unrhyw ddatblygiadau.

Ar 1 Mawrth 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y setliad Cyllid Cyfalaf Cyffredinol Terfynol ar gyfer 2022/23, sef £5.829M, a oedd yn cynnwys grant o £2.378M a £3.451M o fenthyciadau â chymorth. Roedd hyn yn ostyngiad o £1.038M o gyllid 2021/22, a oedd yn £6.867M. O fewn y setliad, dywedwyd y byddai Cyllid Cyfalaf Cyffredinol ar gyfer 2022/23 ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei osod ar £150M. Byddai hyn yn cynyddu i £200M ar gyfer y ddwy flynedd ganlynol, gan gynnwys £20M ym mhob blwyddyn i alluogi awdurdodau i ymateb i'r flaenoriaeth ar y cyd o ddatgarboneiddio. Roedd ffigurau setliad 2023/24 a 2024/25 a ddarparwyd ym mharagraff 2.16 o'r adroddiad wedi'u hamcangyfrif gan ddefnyddio'r data uchod a'u haddasu i eithrio'r £20M ar gyfer datgarboneiddio gan y gallai'r elfen hon fod ar ffurf grant penodol. Gan na chafwyd unrhyw wybodaeth bellach gan Lywodraeth Cymru, rhagdybiwyd y bydd lefel y cyllid cyfalaf o 2025/26

No.

ymlaen yn dychwelyd i'r un lefel ag sydd wedi'i nodi yn Setliad Dros Dro 2022/23 ac y bydd wedyn yn aros yn gyson ar gyfer gweddill cyfnod y rhaglen.

Ychwanegodd y Swyddog fod gwerth y ceisiadau cyfalaf a dderbyniwyd yn dod i gyfanswm gros o £16.718M (£14.533M net) yn 2023/24 a £109.968M (£41.723M net) dros y cyfnod pum mlynedd. Gan nad oedd y ceisiadau wedi'u gwerthuso eto gan y Bwrdd Mewnwelediad Strategol ac nad oedd setliad Llywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24 wedi'i gadarnhau (disgwylir cadarnhad ym mis Rhagfyr '22), cynigiwyd na ddylid cymeradwyo unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd sydd i'w cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf oherwydd yr ansicrwydd ynglŷn â lefel y cyllid fydd yn cael ei ddarparu. Byddai asesiad pellach yn cael ei wneud gan Weithgor y Gyllideb unwaith y byddai lefel y cyllid yn hysbys ac ymgynghoriad wedi'i gynnal. Rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor am y ceisiadau arfaethedig o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor a oedd wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

I gloi, dywedodd y Swyddog fod y Cyngor ar hyn o bryd yn gweithio i fantoli'r gyllideb refeniw ar gyfer 2023/24. Roedd yn flwyddyn arbennig o heriol oherwydd yr hinsawdd economaidd bresennol a'r argyfwng costau byw ac roedd pwysau costau sylweddol wedi'u cyflwyno ac yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Byddai lefel y benthyca a oedd yn dderbyniol yn dibynnu ar yr adnoddau a fyddai ar gael o fewn y gyllideb refeniw. Ni fyddai hynny'n hysbys tan fis Ionawr '23. Ni fyddai unrhyw fenthyca digymorth pellach yn cael ei ychwanegu at y Rhaglen Gyfalaf tan yr adeg honno a byddai angen ystyried y costau refeniw fyddai'n gysylltiedig ag unrhyw fenthyca arfaethedig.

Roedd yr amserlen adrodd gymeradwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cabinet gymeradwyo'r cynigion arfaethedig ar gyfer y gyllideb derfynol erbyn 16 Chwefror 2023 fan bellaf er mwyn i'r Cyngor allu ystyried cynigion terfynol y Cabinet ar gyfer y Rhaglen Gyfalaf yn y cyfarfod sydd i'w gynnal ar 6 Mawrth 2023 er mwyn gallu pennu'r Dreth Gyngor erbyn 11 Mawrth 2023.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan y Pwyllgor, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD - Nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Wedi rhoi sylw i gynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar Raglen Gyfalaf Gychwynnol y Cyngor ar gyfer 2023/24 i 2027/28 a'r Cynigion Cyfalaf.

425 STRATEGAETH ARIANNOL 2022/23 AC ADNEWYDDU'R CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG (CYF) –

Cyflwynwyd y cyfeiriad gan y Cabinet ar 6 Hydref 2022 gan y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifyddiaeth.

Cyhoeddwyd setliad tair blynedd ym mis Mawrth 2022 a chynnydd dangosol mewn Cyllid Allanol Cyfun o 3.5% a 2.4% ar gyfer 2023/24 a 2024/25 yn y drefn

No.

honno. Yr awgrym ar hyn o bryd yw na ddylid disgwyl setliad gwell ar gyfer 2023/24. Nid oedd disgwyl i'r setliad gael ei gyhoeddi tan ddiwedd mis Rhagfyr. Tybiwyd y byddai'r Dreth Gyngor yn cynyddu o 3.9% ond yr oedd hyn ond at ddibenion cynllunio ac fe fyddai hyn yn amodol ar benderfyniad polisi gan y Cyngor Llawn ym mis Mawrth '23.

Dywedodd y Swyddog fod bwch cyllido sylweddol yn 2023/24 ac yn y tymor canolig ar gyfer y Cyngor cyfan. Rhagwelwyd y byddai bwch o £28.190 miliwn ar gyfer 2023/24. Rhagwelwyd gofynion oherwydd pwysau costau o £38.108 miliwn ond nid oedd y cyllid ychwanegol tebygol a fyddai'n dod o grant Llywodraeth Cymru a'r Dreth Gyngor ond yn £9.918 miliwn. Y prif ysgogydd cost oedd chwyddiant gyda chost o £21.659 miliwn yn dod trwy ddyfarniadau tâl, costau ynni, contractau gofal a chontractau trafniadaeth. Ar ben hyn, roedd y pwysau demograffig parhaus yn deillio o'r nifer cynyddol o ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a phoblogaeth a oedd yn heneiddio.

Roedd angen adolygu lefel gyffredinol y cronfeydd wrth gefn a sut yr oeddent yn cael eu clustnodi yn barhaus Dywedodd y Swyddog fod hyn er mwyn diogelu rhag costau annisgwyl a galluogi buddsoddi mewn gwasanaethau i sicrhau eu bod yn gweithredu mor effeithlon â phosibl yn y dyfodol. Nid sicrhau digon cronfeydd wrth gefn digonol oedd yr unig ystyriaeth. Roedd angen sicrhau hefyd bod y risgiau yr oedd y Cyngor yn eu hwynebu yn cael eu hadlewyrchu yn ogystal â mynd i'r afael ag ymrwymadau refeniw a chyfalaf a oedd eisoes yn hysbys. Mae risgiau newydd yn ymwneud â chyfraddau llog a chwyddiant yn ddiweddar na fyddai wedi ymddangos yn flaenorol.

I gloi, nododd y Swyddog fod gofyn i'r Pwyllgor adolygu'r canfyddiadau a'r rhagdybiaethau cost yn y diweddariad i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig fel y nodir yn adroddiad y Cabinet. Roedd angen gwneud hyn cyn i'r Cabinet ystyried y Gyllideb Ddrafft ymhellach ym mis Ionawr '23 a chyn bod y Cyngor Llawn yn ei ystyried ym mis Mawrth '23 cyn y dyddiad cau ar gyfer pennu'r Dreth Gyngor. Yn dilyn hyn, rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor am y pwysau costau o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor a oedd i'w weld yn Atodiad 1 i adroddiad y Cabinet.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Gweithredol, diolchodd yr Is-Gadeirydd i'r swyddogion am adroddiad cynhwysfawr a chydabu'r ansicrwydd ynghylch cyllid y Cyngor hyd nes y byddai setliad Llywodraeth Cymru yn cael ei gadarnhau yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Ychwanegodd fod y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn gyfrifol am gyfran sylweddol o wariant cyffredinol y Cyngor oherwydd y nifer o wasanaethau statudol yr oedd y Gyfarwyddiaeth yn gyfrifol amdanynt ac nad oedd modd osgoi hyn oherwydd natur statudol y gwariant.

Yn ogystal, amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol fod y pwysau costau ar y Gyfarwyddiaeth yn syfrdanol a'u bod yn cael eu heffeithio ymhellach gan y cynnydd mewn costau ynni a chwyddiant ariannol. Roedd yr anhawster o recriwtio staff gofal cartref yn parhau i fod yn bryder sylweddol i'r Cyngor.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

- (1) Nodi cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad atodedig.
- (2) Bod sylwadau canlynol y Pwyllgor Craffu Byw'n Iach a Gofal Cymdeithasol yn cael eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol fel y Pwyllgor Craffu arweiniol:
 - Mae'r Pwysau Cost a nodir o fewn yr adroddiad, sydd o fewn cylch gwaith y Pwyllgor, yn gyfreithlon ac wedi'u cymeradwyo'n llawn gan y Pwyllgor.
 - Mae'r rhan fwyaf o'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor dan y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddarpariaeth statudol ac felly, ychydig iawn o ddewis sydd gan y Cyngor o ran y gwariant mewn perthynas â'r gwasanaethau hyn. Felly, mae bodloni anghenion y rheiny mwyaf agored i niwed i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â'i ddyletswyddau statudol yn parhau'n hollbwysig.
 - Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pwysau sylweddol a roddir ar y Gwasanaeth Gofal Cartref o ran recriwtio a'r angen i wella cynnig cyflogaeth y Cyngor i weithwyr posib er mwyn gwella recriwtio ac wedi hynny darparu lefel y gofal y mae angen i'r Cyngor ei darparu.

Y rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Wedi rhoi sylw i gynnwys cyfeiriad y Cabinet a'r adroddiad ar dybiaethau'r Strategaeth Ariannol a wnaed ar gostau ac arian yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig wedi'i adnewyddu.
- (2) Er mwyn i'r Cabinet gael gwybod am sylwadau'r Pwyllgor drwy'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol cyn i'r Cabinet ystyried ymhellach.

426 MONITRO CYFALAF AM Y CYFNOD RHWNG 1 EBRILL A 30 MEDI 2022 (CGC) –

Cyflwynodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Cyfrifyddiaeth yr adroddiad. Diben yr adroddiad oedd hysbysu'r Pwyllgor o'r cynnydd yn y gwaith ar Raglen Gyfalaf 2022/23 am y cyfnod o 1 Ebrill i 30 Medi 2022 ac i ofyn am newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

Roedd diweddariad ar gynnydd y gwaith ar y Rhaglen Gyfalaf am y cyfnod, a oedd yn cael ei nodi fesul cynllun, wedi'i nodi yn Atodiad 1 i'r adroddiad. Roedd Atodiad 2 i'r adroddiad yn rhoi crynodeb o'r sefyllfa fesul Cyfarwyddiaeth yn y Rhaglen Gyfalaf, o'r adeg pan gafodd ei chymeradwyo gan y Cyngor ar 7 Mawrth 2022 i 30 Medi 2022, ac roedd yr atodiad yn cynnwys unrhyw newidiadau y gofynnwyd amdanynt yn yr adroddiad.

Dywedodd y Swyddog fod cynlluniau Cyfalaf yn wynebu heriau oherwydd cynnydd sylweddol mewn costau, a allai olygu bod angen ail-wneud cynlluniau neu ail-dendro, a fyddai'n arwain at oedi i brosiectau. Roedd swyddogion prosiect hefyd yn nodi bod amseroedd arwain hir wrth gaffael deunyddiau a bod prinder sgiliau

No.

mewn rhai meysydd. Felly, gofynnwyd bod llithriant cyffredinol o £2.524 miliwn yn cael ei gadarnhau. Byddai cynlluniau'n parhau i gael eu monitro'n agos fel rhan o'r trefniadau monitro rheolaidd gyda rheolwyr prosiect a noddwyr.

I gloi, rhoddodd y Swyddog wybod i'r Pwyllgor am newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a'r blynyddoedd i ddod a oedd o fewn cylch gorchwyl y Pwyllgor fel a ganlyn:

- Canolfan Hamdden Penarth – Gwydro Lefel Uchel – Cario £1,546,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.
- Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield – Cario £178,000 ymlaen i Raglen Gyfalaf 2023/24.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau gan y Pwyllgor, mi wnaeth y Pwyllgor

ARGYMHELLWYD -

- (1) Nodi'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni Rhaglen Gyfalaf 2022/23 o fewn cylch gwaith y Pwyllgor.
- (2) Nodi'r defnydd o Awdurdod Dirprwyedig fel y nodir yn yr adroddiad eglurhaol.
- (3) Nodi'r defnydd o Bwerau Brys fel y nodir yn Atodiad 1 yr adroddiad.
- (4) Nodi'r newidiadau i Raglen Gyfalaf 2022/23 a rhai'r blynyddoedd i ddod fel y nodir isod.
 - Goleuadau Stryd ar hyd Frampton Lane - Cynyddu cyllideb y cynllun hwn £5k yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23, i'w ariannu gan gyfraniad arian A106.
 - Pont Llyfrgell Dinas Powys – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £2k i'w hariannu gan gyfraniad refeniw amgylchedd a thai.
 - Ardal Chwarae Cosmeston – Trosglwyddo £13k o gynllun Ardal Chwarae Cosmeston i Gynllun Ardal Chwarae Porthceri.
 - Gerddi'r Cnap - prosiect dŵr a bioamrywiaeth – Cynnwys y cynllun hwn yn Rhaglen Gyfalaf 2022/23 gyda chyllideb o £6k, i'w hariannu gan gyfraniad arian A106.
 - Ysgol Sant Curig - Adnewyddu goleuadau - Dwyn ymlaen £56k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
 - Adolygu newidiadau i gynlluniau trwyddedau parcio - Dwyn ymlaen £55k i raglen Gyfalaf 2023/24.
 - Canolfan Hamdden Penarth - Ffenestri Gwydr Lefel Uchel - Dwyn ymlaen £1,546k i Raglen Gyfalaf 2023/24.
 - Cronfa Partneriaeth Adfywio'r Barri - Dwyn ymlaen £689k i Raglen Gyfalaf 2022/23.
 - Cyfleusterau Chwaraeon Cymunedol Murchfield - Dwyn ymlaen £178k i Raglen Gyfalaf 2023/24.

Y rhesymau dros yr argymhellion

(1-4) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad i roi gwybod i'r Pwyllgor am y cynnydd ar y Rhaglen Gyfalaf, y defnydd o Awdurdod Dirprwyedig, y defnydd o Bwerau Brys a newidiadau i'r Rhaglen Gyfalaf.

427 DIWEDDARIAD GWASANAETHAU TELEOFAL (CGC) –

Wrth gyflwyno'r adroddiad, dywedodd y Rheolwr Gweithredol ar gyfer Gwasanaethau Ardal fod yr adroddiad yn rhoi diweddariad i'r Aelodau ar waith y Gwasanaeth Teleofal dros y 18 mis diwethaf (yn ystod pandemig y coronafeirws) ac yn hysbysu'r aelodau ar ddatblygiadau i'r gwasanaeth yn dilyn Adolygiad y Gwasanaeth Teleofal.

Mewn partneriaeth â Gwasanaethau Cwsmeriaid, comisiynodd y Gwasanaethau Oedolion adolygiad o'r Gwasanaeth Teleofal a gwblhawyd yng ngwanwyn 2021. Amlygodd yr adolygiad yr heriau sy'n gysylltiedig â thelathrebu trwy gyfrwng trosglwyddo digidol ynghyd â manteision mabwysiadu technolegau digidol newydd i gefnogi pobl i fyw yn eu cartrefi a'u cymunedau yn llwyddiannus. Nodwyd argymhellion yr adolygiad ym mharagraff 2.1 o'r adroddiad eglurhaol.

Ychwanegodd y Swyddog fod teleofal yn parhau i fod yn elfen annatod o'r gwasanaethau Gofal a Chymorth sydd ar gael i bobl ar draws Bro Morgannwg, gan alluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi cyhyd â phosibl drwy gynnig sicrwydd a chefnogaeth i aelodau'r teulu a oedd yn ofalwyr, drwy ddarparu gwybodaeth werthfawr yn ymwneud ag iechyd a lles dinasyddion i weithwyr proffesiynol a theulu, a thrwy ddarparu mynediad cynnar/amserol at gymorth brys.

Mae Gwasanaeth Teleofal Cyngor Bro Morgannwg yn cefnogi dinasyddion Bro Morgannwg i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi drwy ddarparu system larwm hygyrch sy'n rhybuddio gofalwyr / gweithwyr proffesiynol pan fo angen. Roedd y Tîm Cefnogi Teleofal yn gyfrifol am hyrwyddo a datblygu'r gwasanaeth a'r gwaith o osod a chynnal a chadw'r offer teleofal. Ar ôl gosod yr offer, roedd gweithredwyr teleofal Cyswllt Un Fro yn ymateb i bob rhybudd teleofal. Roedd hyn ar waith 24 awr y dydd, 365 niwrnod y flwyddyn.

Roedd teleofal yn defnyddio uned sylfaen analog wedi'i chysylltu drwy linell ffôn cartref yr unigolyn, ac roedd modd ei gysylltu â dyfais am y gwddf ac amrywiaeth o synwryddion amgylcheddol, ac yr oedd y rhain wedi'u cysylltu â'r ganolfan fonitro 24/7 yn Cyswllt Un Fro.

Tîm Teleofal Bro Morgannwg oedd y gwasanaeth cyntaf yng Nghymru i symud i blatfform cwbl ddigidol ac felly roedd yn cael ei gefnogi gan y corff teleofal cenedlaethol TEC Cymru, fel y gellid rhannu unrhyw ddysgu ledled Cymru.

Yn dilyn llwyddiant cynllun peilot yn ardal ddwyreiniol y Fro a chyda'r uchelgais i ddarparu Gwasanaeth Cwmpiaadau ledled y Fro, roedd y Cyngor wedi cyflogi Ambiwllans Sant Ioan i ddarparu gwasanaeth Ymateb Cyflym i bob rhan o'r sir o 3

No.

Hydref 2022 ymlaen. Yn yr un modd â'r cynllun peilot, byddai'r gwasanaeth yn cael ei gyrchu trwy Larwm Teleofal yr unigolyn, trwy'r Gwasanaeth Monitro Teleofal 24 awr. Manteision ymgysylltu ag Ambiwllans Sant Ioan oedd y sicrwydd a ddarparwyd gan staff a oedd wedi'i hyfforddi'n llwyr a'r cysylltiadau a oedd eisoes yn bodoli rhyngddynt â'r gwasanaethau brys eraill yn ôl yr angen.

Roedd Gwasanaethau Cymdeithasol wedi ymrwmo i gynyddu nifer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth Teleofal ac i gynyddu'r ystod o opsiynau y mae'r gwasanaeth yn ei chynnig. Bydd hyn yn rhoi cyfle i fwy o bobl elwa ar yr ymyriadau ataliol sydd ar gael trwy fabwysiadu technolegau sy'n dod i'r amlwg. Dros y 12 mis diwethaf, roedd y Gwasanaeth Teleofal wedi gosod uchelgeisiau clir ar gyfer y dyfodol ac wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran ei drawsnewid.

Yn dilyn cyflwyniad y Rheolwr Gweithredol a chwestiynau dilynol gan y Pwyllgor, cynigiodd y Rheolwr Gweithredol gyngor ychwanegol mewn partneriaeth â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol fel a ganlyn:

- Ers 1 Hydref '22, roedd y gwasanaeth wedi ymateb i 33 o alwadau. O'r rhain, roedd wyth achos yn ymwneud â chanfod bod y defnyddiwr gwasanaeth wedi ei anafu ar ôl iddynt gyrraedd. Yr amser ymateb cyffredinol ar gyfartaledd oedd 38 munud gyda 33 munud yn cael eu neilltuo ar gyfer amser i deithio. Ar gyfartaledd, roedd yn ofynnol i staff aros gyda'r defnyddiwr gwasanaeth am 45 munud.
- Roedd staff Ambiwllans Sant Ioan wedi'u hyfforddi mewn gweithdrefnau diogelwch a'u hyfforddi i ddefnyddio offer symudedd wrth ymateb i ddefnyddwyr gwasanaeth a oedd wedi cwmpo gartref.
- Roedd bregusrwydd y system dechnolegol, pe bai'r cyflenwad trydan yn cael ei ddiffodd am gyfnod mewn ymateb i'r argyfwng ynni cenedlaethol, yn bryder sylweddol i'r Tîm Teleofal. Roedd rhai rhannau o'r offer yn dibynnu ar bŵer batri, ond roedd y tîm yn gwneud gwaith paratoi ac yn nodi'r defnyddwyr gwasanaeth a oedd yn wynebu'r perygl mwyaf mewn senario lle roedd y cyflenwad trydan wedi'i ddiffodd, a'r gobaith oedd y byddid yn cael rhybudd os oedd y cyflenwad trydan yn debygol o gael ei ddiffodd.
- Roedd menter ar draws y gorfforaeth gyfan eisoes ar y gweill i asesu'r risgiau i holl wasanaethau'r Cyngor o ganlyniad i unrhyw darfu ar y cyflenwad ynni ar draws y wlad.
- Roedd y Gwasanaeth Teleofal wedi bod trwy newid sylweddol ac wedi gweld gwelliannau enfawr a oedd yn cael eu cydnabod yn genedlaethol ac yn glod i'r holl staff dan sylw.

Cydnabu'r Pwyllgor y gwaith eithriadol sy'n cael ei wneud gan y gwasanaeth a chanmol y cyfraniad yr oedd Ambiwllans Sant Ioan wedi'i wneud i drawsnewid y gwasanaeth yn ogystal â'r gwaith o fabwysiadu technolegau newydd i wella'r gwasanaeth.

Gan nad oedd unrhyw sylwadau na chwestiynau pellach, mi wnaeth y Cyngor

No.

ARGYMHELLWYD -

- (1) Nodi gwaith hyd yma'r Gwasanaeth Teleofal a'i waith yn y dyfodol.
- (2) Bod y Pwyllgor Craffu yn parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Gwasanaeth Teleofal.

Y rhesymau dros yr argymhellion

- (1) Wedi rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad ar heriau, cyfleoedd a chyfeiriad strategol Gwasanaeth Teleofal Cyngor Bro Morgannwg a'r modelau gwasanaeth a'r datblygiadau parhaus.
- (2) Er mwyn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith y Gwasanaeth Teleofal.